

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 8fed Ionawr, 2018, yn Festri Capel Hebron, Llangwnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Carys E. Williams (Cadeiryddes)
 Y Cyngorydd Glenys Williams (Is-Gadeiryddes)
 Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)
 Ymddiheuriad: Y Cyngorydd Glyn Roberts

77. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a da oedd deall fod Y Cyngorydd Glyn Roberts wedi derbyn ei lawdriniaeth a'i fod adref o'r ysbyty. Dymunwyd adferiad llwyr a buan iddo.

78. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

79. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 8fed Ionawr, 2018.

MATERION YN CODI

(1) Eitem 69 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (2) – Archwilio'r Cyfrifon

Adroddodd Y Cyngorydd Michael Strain fod Swyddog wedi ei phenodi gan Llanw Llyn ar gyfer sefydlu safle we a fod Cyfarfod o'r Llanw yn ystod y mis ac y byddai'n adrodd ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(2) Eitem 69 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (3) – Y Feddygfa yn Rhydbach

Cyflwynwyd ymateb Mr. David Shaw, Rheolwr Practis Meddygfa Rhydbach, Botwnnog – copi wedi ei anfon allan gyda'r rhaglen i bob aelod a bydd copi yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol.

Penderfynwyd nodi'r atebiad.

(3) Eitem 69 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (4) – Sedd wag yn Sarn Mellteyrn

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc nad oedd wedi derbyn unrhyw gais ysgrifenedig i lenwi'r sedd wag yn Ward Mellteyrn, ond deallwyd fod Mr. Sion Williams, Dwyfach, Sarn Mellteyrn, wedi datgan diddordeb ac wedi ymweld a chartref y Clarc ar fwy nag un achlysur ond yn anffodus nid oedd ar gael.

Yn wyneb hyn, a chan fod Mr. Sion Williams wedi dangos diddordeb, **penderfynwyd** ei wahodd i fod yn aelod o'r Cyngor i gynrychioli Ward Sarn Mellteyrn.

(4) Eitem 72 – Materion Ffyrdd

Adroddodd Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, iddo gyfarfod Mr. Alun Jones, Peiriannydd Cyngor Gwynedd, ym Motwinnog, ac iddynt ymweld a'r trigolion oedd wedi dioddef effaith y tywydd garw diweddar. Yn dilyn yr ymweliad 'roedd Mr. Alun Jones am baratoi adroddiad ar y sefyllfa.

Dywedodd Y Cynghorydd Williams hefyd ei fod yn cael cyfarfod gyda Swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru a Ms. Liz Saville Roberts i drafod y mater ymhellach a byddai'n adrodd yn ôl.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

80. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais y mis hwn.

81. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor lechyd.

82. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd

(a) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi grafu a 'sgubo Llwybr Bach, Botwinnog gan ei fod yn llithrig a chryn ddefnydd arno gan blant yr Ysgol Uwchradd a'r trigolion lleol.

(b) Tynnu sylw'r Adran Ffyrdd at gyflwr y lonydd a ganlyn:

Lon Treafes Fawr, Botwinnog

Lon Penrhos, Botwinnog i lawr at Sarn Mellteyrn

Lon Cae Newydd, Penygroeslon i lawr am groeslon Muriau, Bryncroes.

Dwr yn rhedeg ar draws y ffordd ochr uchaf i Llys Meddyg gan greu perygl yn ystod y tywydd garw.

(c) Gwneud ymholiadau gyda'r Adran Llwybrau er canfod beth sydd yn digwydd i'r gamfa a'r polyn ger Argraig, Sarn, ac hefyd y gamfa ar lwybr Pengopa, Bryncroes.

(Cais wedi ei anfon at yr Adran ar 4ydd Mehefin, 2017).

(ch) Gwneud ymholiadau beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglyn a'r biniau halen.

83. AWDURDOD I DALU

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

84. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol

Penderfynwyd

a) Cyfrannu fel a ganlyn:

Clwb Hoci Pwllheli £50.00

Cylch Meithrin Bryncroes	£50.00
Diffibriliwr i Fotwinnog (Calonnau Botwinnog)	£50.00
Y Groes Goch	£25.00

- b) Peidio cyfrannu i'r rhai a ganlyn:
Dawns i Bawb
Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
Marie Curie

85. ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y CYFRIFON

Cyflwynwyd adroddiad o Is-bwyllgor a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson i drafod y cyfrifon ac i gyflwyno argymhellion ar gyfer 2018/19.

Cyfarfu'r Cynghorwyr Ifor Owen, Glenys Williams a Carys E. Williams ac yn dilyn edrych drwy'r cyfrifon argymhellir i'r Cyngor godi £500 ar y praesept (cyfanswm y praesept am 2018/19 felly yn £5,500) a hynny er sefydlu gwefan i'r Cyngor a thalu'r costau postio i'r Clarc.

Argymhellwyd ymhellach gwahodd John Roberts yn Archwilydd Mewnol. Glynw at yr un rheolau parthed arwyddo sieciau yn unol a chofnod o'r Cyngor 11eg Gorffennaf, 2016. Hefyd argymhellwyd fod Is-bwyllgor y Fynwent i edrych i mewn i gostau rhedeg y fynwent ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd derbyn a gweithredu yn unol ag adroddiad yr Is-bwyllgor cyfrifon a chodi'r praesept i £5,500 am y flwyddyn 2018/19.

86. MYNEDIAD CEFFYLAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd llythyr Mr. David Gray, Swyddog Cyfathrebu Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru ynglyn a chyflwr llwybrau yn y Gymuned.

Penderfynwyd ei adael ar y bwrdd.

87. BARBIO TIROEDD Y CYNGOR

Penderfynwyd rhoddi hysbyseb yn rhifyn Chwefror o Llanw Llyn yn gwahodd tendrau am farbio Mynwent Llandegwning a llwybrau cyhoeddus – yr un telerau a'r flwyddyn hon sef:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2018); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y cyfnod, a'r gwellt i'w glirio oddi yno.
2. Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2018); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y cyfnod, a'r gwellt i'w glirio oddi yno.
3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn.

